# GWENT



## Adroddiad Blynyddol

# Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol MAPPA ar gyfer 2015/16. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. (MAPPA) yng Gwent.

Sicrhau bod ein cymunedau'n fwy diogel yw blaenoriaeth uchaf NOMS yng Nghymru, ac mae'r gwaith a wneir drwy MAPPA o bwysigrwydd allweddol i gyflawni hyn. Nid yw byth yn bosibl dileu risg yn llwyr, ond yr hyn a ddisgwylir yw bod yr holl gamau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys. All yr un asiantaeth unigol wneud hyn ar ei phen ei hun ac mae o bwys allweddol fod asiantaethau'n dal i gefnogi a chyfrannu at broses MAPPA. Mae NOMS yng Nghymru'n gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i gyfnewid gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau o dan MAPPA, sy'n ein galluogi i adnabod, asesu a rheoli'r troseddwyr rhyw a threisgar hynny sy'n achosi'r risg mwyaf i'n cymunedau lleol.

Caiff gwaith MAPPA yng Gwent ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Strategol ac mae ei aelodau'n cynnwys uwch reolwyr o bob asiantaeth sy'n cymryd rhan fel arfer mewn cyfarfodydd MAPPA. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi ymrwymo'n llawn i'r egwyddor fod ein hasiantaethau'n gallu diogelu'r cyhoedd yn effeithiol os gweithiwn gyda'n gilydd.

Drwy gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn mae cyfle i MAPPA fod yn atebol i'r gymuned leol gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn â pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella effeithiolrwydd MAPPA. Gobeithio y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn addysgiadol ac o gymorth i ddeall sut mae asiantaethau drwy Gymru'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiogelu'r cyhoedd yn well.



Simon Boddis
Cyfarwyddwr NOMS yng Nghymru



Simon Boddis
Cyfarwyddwr NOMS yng Nghymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

(a) Mae MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) yn gyfres o drefniadau i reoli'r risg a achosir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA) dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(b) Maent yn dwyn ynghyd y Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr gan greu'r hyn a elwir yn Awdurdod Cyfrifol MAPPA .

(c) Mae nifer o asiantaethau eraill dan Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

(d) Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Ymgynghorydd Lleyg i eistedd ar y Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) ym mhob ardal MAPPA ochr yn ochr ag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r asiantaethau sy'n rhan o'r Awdurdod Cyfrifol a'r rhai sydd â dyletswydd i gydweithredu.

(e) Aelodau o'r cyhoedd yw Ymgynghorwyr Lleyg sydd heb gysylltiadau â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ac sy'n gweithredu fel sylwedyddion annibynnol, ond gwybodus; sy'n gallu gofyn cwestiynau na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud yn agos â'r gwaith o bosib yn meddwl am eu gofyn. Maent hefyd yn rhoi i'r Bwrdd Rheoli Strategol eu dealltwriaeth a'u safbwynt hwy am y gymuned leol (y mae'n rhaid eu bod yn byw ynddi a bod ganddynt gysylltiadau cryf â hi).

## Sut mae MAPPA yn gweithio

- Mae troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu hadnabod a gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu gan yr asiantaethau er mwyn goleuo asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y rheini sy'n eu rheoli neu'n eu goruchwylio.

- Ym mwyafrif yr achosion dyna'r pellaf y mae MAPPA yn ymestyn ond mewn rhai achosion, penderfynir bod rheolaeth amlasiantaethol weithredol yn ofynnol. Mewn achosion o'r fath bydd cyfarfodydd MAPPA rheolaidd yn cael eu mynychu gan ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol.

- Mae 3 chategori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA: **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig; **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar am 12 mis neu fwy; a **Chategori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan gategorïau 1 a 2 ond sydd ar hyn o bryd yn achosi risg o niwed difrifol.

- Mae tair lefel reoli sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; ar y cyfan y rhai lle ceir y risgiau uchaf o niwed difrifol. Mae **Lefel 1** yn golygu rheolaeth arferol gan asiantaeth (h.y. dim cyfarfodydd nac adnoddau MAPPA); mae **Lefel 2** yn golygu bod ymwneud gweithredol gan fwy nag un asiantaeth yn ofynnol er mwyn rheoli'r troseddwr ond nid yw'r cynlluniau rheoli'n golygu ei bod yn ofynnol cael presenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch. Lle mae goruchwyliaeth uwch yn ofynnol byddai'r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Ategir MAPPA gan ViSOR. System TG genedlaethol yw hon i reoli pobl sy'n achosi risg difrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae'r heddlu wedi bod yn defnyddio ViSOR ers 2005 ond, ers mis Mehefin 2008, mae ViSOR wedi bod yn llwyr weithredol gan alluogi, am y tro cyntaf, i staff allweddol o'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai i weithio ar yr un system TG, gan felly wella ansawdd ac amseroldeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu. Mae defnyddio ViSOR mewn modd cyfunol yn cynyddu'r gallu i rannu cudd-wybodaeth rhwng sefydliadau ac yn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fo'r troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan wella mesurau diogelu'r cyhoedd. Cyhoeddir yr holl adroddiadau MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 577 | 370 | - | 947 |
| Lefel 2 | 42 | 37 | 3 | 82 |
| Lefel 3 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 621 | 408 | 3 | 1032 |

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 51 | 114 | 12 | 177 |
| Lefel 3 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | 53 | 114 | 12 | 179 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig a gafodd rybuddiad neu a gafwyd yn euog am dorri'r gofynion hysbysu** | 7 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig y mae eu hysbysiad oes wedi ei ddiddymu ar gais** | 11 |

| Gorchmynion gwaharddol ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs), SHPOs gyda gwaharddiad teithio dramor a NOs a orfodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 7 |
| SHPO gyda gwaharddiad teithio dramor | 0 |
| NOs | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu yn dilyn achos(ion) o dorri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 0 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 a ddychwelwyd i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 3 | 7 | 3 | 13 |
| Lefel 3 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | 5 | 7 | 3 | 15 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** | | | | |
| Lefel 2 | 2 | - | - | 2 |
| Lefel 3 | 1 | - | - | 1 |
| Cyfanswm | 3 | - | - | 3 |

| Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl | 121 |
|---|---|

Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio'r Amcangyfrif Poblogaeth Canol-blwyddyn ar gyfer 2015: blwyddyn oed unigol a rhyw ar gyfer Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o boblogaeth preswylwyr, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar, heb gynnwys y rheini sy'n llai na deng mlwydd oed.

# Sylwebaeth eglurhaol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfansymiau'r troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, wedi'u rhannu yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2016 (h.y. ciplun ydynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

**(a) Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA** – ceir nifer o droseddwyr y diffinnir yn gyfreithiol eu bod yn gymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu eu bod yn achosi risg o niwed difrifol ar hyn o bryd, er bod y mwyafrif (96.5% eleni) yn cael eu rheoli dan drefniadau asiantaeth arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** – y rheini y mae'n ofynnol iddynt hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, eu cyfeiriad a manylion personol eraill a hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau wedi hynny (adwaenir hyn fel y "gofyniad i hysbysu"). Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu'n dramgwydd troseddol a 5 mlynedd o garchar yw uchafswm y gosb.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar sydd wedi cael dedfryd o garchar neu gadwad am 12 mis neu fwy, neu a gadwyd dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i gofrestru a throseddwyr a waharddwyd rhag gweithio gyda phlant.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan y ddau gategori arall o ran troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, ond sydd ar hyn o bryd yn achosi risg o niwed difrifol y mae angen ei reoli trwy gyfarfodydd MAPPA.

**(e) Torri amodau trwydded** – bydd troseddwyr a ryddhawyd i'r gymuned yn dilyn cyfnod o 12 mis neu fwy yn y carchar yn ddarostyngedig i drwydded gydag amodau (dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na chydymffurfir â'r amodau hyn, bydd camau gweithredu mewn perthynas â thorri amodau trwydded yn cael eu cymryd a gellir galw'r troseddwr yn ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) – (sydd wedi cymryd lle Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw) yn cynnwys unrhyw waharddiad teithio tramor ychwanegol.**

Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a SHPO dros dro yw diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o droseddau rhyw neu dreisgar sy'n achosi risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd trwy osod gwaharddiadau ar eu hymddygiad. Mae'n ofynnol i'r troseddwyr hysbysu'r heddlu ynghylch eu manylion (fel yr amlinellir yn Rhan 2 o Ddeddf 2003) yn ystod cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen gorchymyn i ddiogelu'r cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol), dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wnaed ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, rhaid i'r prif swyddog/yr Asiantaeth allu dangos bod y troseddwr wedi gweithredu yn y cyfryw fodd ers ei gael yn euog er mwyn gwneud y gorchymyn yn ofynnol.

Isafswm hyd gorchymyn llawn yw pum mlynedd. YR isafswm oed yr 10, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond os yw'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ystyried cais am orchymyn fel achos eithriadol yn unig.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risgiau a achosir ganddynt. Gall yr heddlu

wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu mewn perthynas â throseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

### (h) Gorchymyn Risg Rhywiol (yn cynnwys unrhyw waharddiad teithio tramor ychwanegol)

Cymerodd y Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) le'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gellir ei wneud mewn perthynas ag unigolyn heb ei gael yn euog o drosedd ryw neu dreisgar (neu unrhyw drosedd arall), ond sy'n achosi risg o niwed rhywiol.

Gall Gorchymyn Risg Rhywiol gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais, gan yr heddlu neu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol os yw unigolyn **wedi gwneud gweithred o natur rywiol** a bod y llys yn **fodlon bod yr unigolyn yn achosi risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion bregus dramor.**

Gall Gorchymyn Risg Rhywiol wahardd yr unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo – **mae hyn yn cynnwys eu hatal rhag teithio dramor**. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn ofynnol i ddiogelu'r cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu mewn perthynas â theithio dramor, diogelu plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Rhaid i unigolyn sy'n destun Gorchymyn Risg Rhywiol hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad gartref o fewn tri diwrnod i wneud y gorchymyn a hefyd hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon o fewn tri diwrnod.

Gall Gorchymyn Risg Rhywiol bara am isafswm o ddwy flynedd ac nid oes uchafswm o ran hyd, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau teithio dramor sydd, os yw'n berthnasol, yn para am uchafswm o bum mlynedd (ond gellir ei adnewyddu).

Mae'r safon prawf troseddol yn dal i fod yn berthnasol, mae'r unigolyn dan sylw'n gallu apelio yn erbyn gwneud y gorchymyn, ac mae'r heddlu neu'r unigolyn dan sylw'n gallu gwneud cais i amrywio, adnewyddu neu gyflawni'r gorchymyn.

Mae torri Gorchymyn Risg Rhywiol yn dramgwydd troseddol gyda chosb bosibl o uchafswm o bum mlynedd dan glo. Os yw unigolyn yn torri ei Orchymyn Risg Rhywiol, bydd yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu llawn.

Mae enwau sy'n destun Gorchymyn Risg Rhywiol bellach yn cael eu cofnodi ar VISOR, fel Unigolyn Peryglus Posibl (PDP).

### (i) Dileu gofynion hysbysu oes ar gais

**Newid mewn deddfwriaeth ar droseddwyr rhyw**

Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bellach bod mecanwaith yn ei le a fydd yn caniatáu i **droseddwyr rhyw cymwys wneud cais i adolygu eu gofynion hysbysu.**

Bydd unigolyn sy'n destun hysbysiad amhenodol ond yn gymwys i gael adolygiad unwaith y maent wedi bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am gyfnod o 15 mlynedd o leiaf ar gyfer oedolion a 8 mlynedd ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn berthnasol o 1 Medi 2012 ar gyfer pobl ifanc sy'n droseddwyr.

Ar 21 Ebrill 2010, yn achos *R (ar gais F ac Angus Aubrey Thompson) v yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Swyddfa Gartref [2010] UKSC 17*, cadarnhaodd yr Uchel Lys benderfyniad cynharach y Llys Apêl a gwnaeth ddatganiad o anghydlyniant o dan adran 4 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mewn perthynas â gofynion hysbysu am gyfnod amhenodol o dan adran 82 o Ddeddf Troseddau Rhyw 2003.
Mae hyn wedi ei newid drwy rinwedd Gorchymyn Deddf Troseddau Rhyw 2003 (Adfer) 2012 a gyflwynodd y cyfle i droseddwyr sy'n destun hysbysu amhenodol wneud cais am adolygiad; daeth yn i rym ar 30 Gorffennaf 2012.

Ni fydd unigolyn yn dod oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Bydd yn ofynnol i droseddwyr cymwysedig gyflwyno cais i'r heddlu yn gofyn am adolygiad o'u gofynion hysbysu amhenodol. Bydd hyn yn digwydd yn unig ar ôl iddynt gwblhau isafswm cyfnod o amser yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu (15 mlynedd o'r pwynt hysbysu cyntaf yn dilyn rhyddhau o'r ddalfa ar gyfer y trosedd index ar gyfer oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer pobl ifanc).

Bydd y rhai sy'n dal i achosi risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, os bydd angen. Os bydd troseddwr yn destun Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO) neu Orchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) rhaid dileu'r gorchymyn o dan adran 108 o Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 cyn cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu amhenodol.

Am fwy o wybodaeth, gweler adran y Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

# Tudalen leol

**Gwnaed cynnydd cyson a sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf. Mae Is-bwyllgorau Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gwent wedi eu hadnewyddu; bellach mae gwaith y Bwrdd wedi ei integreiddio a'i alinio'n well i sicrhau bod gwelliannau parhaus yn cael eu darparu ar sail tystiolaeth fel y nodir yn ein Cynllun Strategol. Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi gwella'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn a bellach rydym yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwaith cadarnhaol MAPPA o fewn Gwent yn well, datblygu ymhellach berthnasoedd effeithiol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid a rhannu arfer da drwy Gymru i sicrhau bod gan gymunedau lleol hyder ym mesurau diogelu'r cyhoedd.**

**Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Bwrdd Rheoli Strategol Gwent wedi gweithredu dull Pedair Colofn tuag at reoli risg a'r broses MAPPA. Daeth y cyfnod gweithredu i ben gyda lansiad a nifer o fawr o Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu'n dod at ei gilydd. Rhagwelir y bydd hyn yn hybu'r broses rhannu gwybodaeth ac yn gwella'r ffordd y mae troseddwyr MAPPA yn cael eu rheoli o fewn y gymuned. Bydd y ffordd newydd o weithio'n parhau i hybu ac annog gweithio ar y cyd ond bydd hefyd yn anelu at feithrin rhwydweithiau cefnogol ar gyfer troseddwyr a hybu ffactorau amddiffynnol i leihau'r risg o niwed. Mae'r dull Pedair Colofn hefyd yn anelu at sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda'r unigolyn yn ymwybodol o'r arwyddion rhybuddio cynnar i gynyddu risg a sut i adrodd yn ôl ynghylch y rhain i'r asiantaeth arweiniol. Mae Bwrdd Rheoli Strategol Gwent yn hyderus y bydd y dull newydd hwn yn cyfrannu at y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i leihau'r risg o niwed ac aildroseddu yng Ngwent.**

**<u>Pwyntiau Cyswllt Allweddol</u>**

**Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol**
Nic Davies
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Swyddfa'r Gwasanaeth Prawf Caerffili
Centenary House
Uned 1 De Clare Court
Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy
Caerffili
CF83 3HU

**Swyddog Arweiniol ar ran yr Heddlu**
Leanne Brustad
Prif Uwcharolygydd
Pencadlys yr Heddlu Gwent
Turnpike Road,
Croesyceiliog,
Cwmbrân,
NP44 2XJ

**Swyddog Arweiniol ar ran y Gwasanaeth Carchardai**
Ian Evans
Llywodraethwr CEM Brynbuga/Prescoed 102
Stryd Maryport
Brynbuga
NP15 1AH

**Cydlynydd MAPPA**
Guy Browett
Swyddfa'r Gwasanaeth Prawf Caerffili
Centenary House
Uned 1 De Clare Court
Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy
Caerffili
CF83 3HU

**Cyhoeddir holl adroddiadau MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein ar:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**

National Probation Service

HM PRISON SERVICE

Heddlu Gwent Police